



Clwb Mynydda Cymru Ysgrifennydd Gweithgareddau Adroddiad 2023

Diolchiadau

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch yn fawr i Eryl, fy rhagflaenydd, am osod seiliau cadarn ac effeithiol yn eu lle. Roedd hyn yn ei gwneud yn llawer haws wrth i mi ymgymryd â'r swydd! Hoffwn ddiolch yn fawr hefyd i bawb sydd wedi cytuno i arwain teithiau; mae parodwydd aelodau i dderbyn y fath gyfrifoldeb yn hanfodol i lwyddiant y Clwb.

Teithiau

Ers dechrau'r flwyddyn, trefnwyd 55 o deithiau ar benwythnosau a 12 ar ddyddiau Mercher. Diolch arbennig i'r wyth aelod sydd wedi arwain taith am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn argoeli'n ardderchog o ran dyfodol y Clwb.

Taith flasu

Trefnwyd taith flasu – Moel Siabod – ddechrau mis Mai ac fe ysbrydolwyd rhai o'r 'blaswyr' i ymaelodi. Mae un ohonyn nhw eisoes wedi arwain taith i'r Clwb!

Graddio teithiau

Ers dechrau mis Medi, mae teithiau'r clwb yn cael eu graddio yn unol â lefel eu her. Mae hyn yn helpu darpar-gerddwyr benderfynu p'un ag ydyn nhw am ymuno â thaith ai peidio.

Yr Alban

Trefnwyd dwy daith breswyl i'r Alban.

- **Taith aeaf i Crianlarich.** Ym mis Chwefror, bu 20 o aelodau yn dringo nifer helaeth o gopaon rhwng ardal Glen Lyon yn y dwyrain a Glencoe yn y gorllewin.
- **Taith haf i Roy Bridge.** Mwynhaodd 11 o aelodau dywydd hafaidd dros ben ddiwedd mis Mai a llwyddwyd i esgyn nifer helaeth o gopaon.

Diolch yn fawr iawn i Gareth Everett Roberts (Crianlarich) a Keith Roberts (Roy Bridge) am drefnu'r ddwy daith ac i Anna George am lunio adroddiadau ardderchog sy'n croniclo'u llwyddiant.

Teithiau preswyl 2024

Cynhelir taith arall i Crianlarich ar 17-24 Chwefror 2024 a thaith i Hawes, Parc Cenedlaethol y *Yorkshire Dales* ar 6-10 Mai. Cysylltwch â Keith Roberts (Crianlarich) – crianlarich2024@outlook.com - a Gwyn Williams (Hawes) – godrerglyn@hotmail.co.uk - am ragor o wybodaeth.

Cymhwyster Arweinydd Mynydd (ML)

Treuliodd deg o aelodau'r Clwb chwe niwrnod yn derbyn hyfforddiant a oedd yn cynnwys noson stormus a gwlyb o fordwyo a gwersylla! Byddan nhw treulio cyfnod arall o asesiad ar y mynyddoedd maes o law. Trefnir y cyrsiau ardderchog hyn mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth Awyr Agored.

Richard Roberts
Ysgrifennydd gweithgareddau
Tachwedd 2023
llanrug1956@gmail.com